# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Linda Pilgrim

### Swyddog Cymorth Gweinyddol Awtistiaeth – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Helo, fy enw i yw Linda Pilgrim a fi yw Swyddog Cymorth Gweinyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a leolir yn WLGA yng Nghaerdydd.

Fy rôl i yw cefnogi'r Tîm drwy gydlynu lleoliadau ar gyfer amrywiol gyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau sy'n cael eu cynnal ym mhob rhan o Gymru, ac yn fwy diweddar cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn rhithwir ar-lein. Rwy'n trefnu llety gwesty a llogi ceir i'r tîm, yn codi archebion prynu ac yn talu anfonebau ynghyd â llu o ddyletswyddau gweinyddol eraill.

Un o'r dyletswyddau hyn yw ateb galwadau ffôn a chyfeirio pobl at y person mwyaf priodol sy'n gallu darparu gwasanaeth mewn maes penodol, ac mae'r unigolion bob amser yn hynod o ddiolchgar. Rwy' hefyd yn gofalu am fewnflwch post y Tîm a phan fydd e-bost yn dod i'r mewnflwch gydag ymholiad neu broblem, rwy'n penderfynu pwy yw'r person mwyaf priodol yn y tîm i ymdrin â'r ymholiad.

Rydyn ni hefyd yn derbyn llawer o geisiadau am ein hamrywiol adnoddau, gan gynnwys pecynnau gwybodaeth 'Weli Di Fi?', canllawiau a phecynnau ysgol Dysgu gydag Awtistiaeth ac ati, ac yna bydda i'n trefnu i'w postio neu wasanaeth cludo ar eu cyfer.

Un o'm tasgau allweddol yn y tîm yw prosesu'r holl geisiadau ysgol Dysgu gydag Awtistiaeth ar gyfer eu gwobr ysgol gyfan neu ar gyfer lleoliad, ac rwy'n mwynhau hynny'n fawr ac mae'n gwneud i fi deimlo'n falch iawn. Mae tri chynllun ar ein gwefan – un ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, un arall ar gyfer y sector Cynradd ac wedyn un ar gyfer y sector Uwchradd.

Pan fydd lleoliad neu ysgol yn cyflwyno cais, rwy'n rhedeg amrywiol adroddiadau drwy'r gronfa ddata i sicrhau bod y staff a'r plant wedi cwblhau eu cynlluniau perthnasol. Nid yw'r broses yma bob amser yn syml a gall olygu llawer iawn o ebyst a sgyrsiau i drafod y broses.

Fodd bynnag, mae'n rhoi boddhad mawr a phan fydd yr ysgol neu'r lleoliad yn derbyn eu tystysgrif Dysgu gydag Awtistiaeth, maen nhw bob amser mor ddiolchgar am fy nghefnogaeth, ac rwy'n aml yn derbyn ebyst yn diolch i fi am hyn ac mae hynny'n rhoi boddhad mawr i'r elfen hynny o'm swydd.